# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I'R CABINET**
03/11/2015

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Dyfed Edwards

**Pwnc:** Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015-16 - meysydd Amgylchedd, Amddifadedd, Economi a Chymuned ac Iechyd, Gofal a Lles

**Swyddog cyswllt:** Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol

---

**Y penderfyniad a geisir**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn yr aelod lleol**

Nid yw'n fater lleol.

---

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir trosolwg o berfformiad y Cyngor hyd yma yn 2015-16. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Dlodi, Amddifadedd, Economi, Tai, yr Amgylchedd a hefyd Gofal sydd yn rhan o bortffolio'r aelodau Cabinet canlynol:

Y Cynghorydd Dafydd Meurig
Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies
Y Cynghorydd Ioan Thomas
Y Cynghorydd John Wyn Jones
Y Cynghorydd Gareth Roberts

1.2 Mae'r adroddiad yn cyfarch y cynlluniau trawsnewidiol sydd yn y Cynllun Strategol yn ogystal ag yn tynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn adlewyrchu gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

## 2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

## 3.0 Prif negeseuon

Mae holl dimau gwasanaeth y Cyngor wedi dechrau adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac yn ystyried a oes lle i wella. Y rhain yw egwyddorion Ffordd Gwynedd. Mae'r timau yn edrych ar ddiffinio eu pwrpas drwy lygaid pobl Gwynedd fel bod modd cadw'r ffocws ar ein cwsmeriaid. Ar yr un pryd maent wedi bod yn edrych ar sicrhau bod y pethau cywir yn cael eu mesur ac mae gwaith pellach i'w wneud ar hyn. Mae hyn yn drefn newydd i swyddogion y Cyngor, ac yn rhan o roi Ffordd Gwynedd ar waith.

Mae'r aelodau Cabinet unigol yn gyfrifol ac yn atebol am berfformiad y timau gwasanaeth sydd yn rhan o'u portffolio. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o berfformiad y meysydd hynny. Cyflwynir perfformiad y meysydd eraill, sef Cyngor Effeithiol ac Effeithlon, Plant a Phobl Ifanc, Diogelu, Y Gymraeg a Chynllunio Ariannol mewn adroddiad trosolwg ar wahân.

Hwn yw'r cyfle cyntaf inni edrych ar drosolwg o berfformiad y Cyngor yn 2015-16. Mae'n adlewyrchu'r newid diwylliant sydd yn digwydd ymysg gwasanaethau'r Cyngor er mwyn edrych ar ein gwasanaethau trwy lygaid y dinesydd.

Gwelir bod gwaith ar y prosiectau strategol yn symud ymlaen fel ag a gynlluniwyd yn y Cynllun Strategol, gyda cherrig milltir wedi eu gosod a chynnydd yn cael ei fesur yn eu herbyn.

## 4.0 Prosiectau'r Cynllun Strategol

Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2015-16 yn y meysydd Amddifadedd, Economi a Chymuned, yr Amgylchedd a hefyd Iechyd, Gofal a Lles. Mae'r prosiectau ym mherchnogaeth yr aelodau Cabinet unigol, a dylid nodi nad oes prosiectau ym maes Amgylchedd (sydd ym mhortffolio'r Cynghorwyr John Wynn Jones a Dafydd Meurig).

## 4.1 Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai

Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies

**T1 Swydd Gwerth Uchel ac o Ansawdd**

**Pwrpas y prosiect hwn yw creu'r amodau er mwyn creu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd yn y sir.**

Mae gwaith wedi'i gwblhau i lunio rhestr fer o sectorau i'w targedu er mwyn denu buddsoddiadau gwerth uchel i'r sir. Mae'r gwaith o ddatblygu safleoedd Ardal Fenter Eryri yn parhau, gyda ffocws y gwaith bellach wedi canolbwyntio ar ymchwil a datblygu arloesol – yn y maes cynhyrchu ynni niwclear graddfa-fechan yn Nhrawsfynydd, a systemau di-griw yn Llanbedr. Mae'r prosiect yn cyrraedd y cerrig milltir disgwyliedig.

**T2 Cadw'r budd yn lleol**

**Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau bod gan fusnesau'r sir yr wybodaeth a'r gallu i fanteisio ar drefn gaffael gwasanaethau a nwyddau newydd y Cyngor.**

Rydym wedi cyflwyno rhai gwasanaethau i drefniadaeth rheolaeth categori. Rheolaeth categori ydi prynu'n strategol drwy ddeall y farchnad a gyrru newid ar gyfer canlyniadau gwell i bobl Gwynedd. Trwy hyn rydym yn ymgymryd â phecyn hyfforddi ac yn datblygu'r tîm rheoli categori pobl. Mae rhaglen waith wedi'i llunio ac rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau gyda swyddogion. Mae'r prosiect yn cyrraedd y cerrig milltir disgwyliedig

**T3 Gwynedd Ddigidol**

**Pwrpas y prosiect hwn yw cefnogi ymdrechion i drawsnewid defnydd busnesau, gwasanaethau a thrigolion Gwynedd o dechnoleg drwy sicrhau bod darpariaeth o fandeang cyfoes ar draws y sir.**

Mae bandeang cyflym wedi dechrau cael ei ddarparu mewn 41 o'r 46 ardal cyfnewidfa ffôn yng Ngwynedd. Gwynedd fydd y lle cyntaf yng Nghymru i gael darpariaeth sylweddol o ffibr i eiddo. Mae rhwydwaith wi-fi cyhoeddus Gwynedd wedi ei adnewyddu/uwchraddio ac mae'r prosiect yn cyrraedd y cerrig milltir disgwyliedig.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

**T4 Cefnogi'r economi wledig**
**Pwrpas y prosiect yw creu'r amodau i gryfhau sail economi wledig Gwynedd gan annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal cyflogaeth ar draws cymunedau Gwynedd.**
Mae cynllun drafft wedi ei gytuno gan Fforwm Ardal Dwyfor a deialog gyda chyflogwyr allweddol a chynrychiolwyr busnesau bychain Llŷn ac Eifionydd wedi eu cynnal. Mae Rhaglen Datblygu Cymru (2014-2020) wedi derbyn cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd a Grŵp Gweithredu Lleol (LAG) Gwynedd wedi derbyn llythyr cymeradwyaeth mewn egwyddor sy'n caniatáu i weithgaredd gychwyn. Mae'r prosiect yn cyrraedd y cerrig milltir disgwyliedig.

**T5 Safle Treftadaeth y Byd**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd creu budd economaidd o dreftadaeth gyfoethog Gwynedd.**
Mae astudiaeth gymharol o rinweddau'r diwydiant llechi yng nghyd-destun rhyngwladol wedi ei gwblhau ac astudiaeth o werth economaidd presennol y sector treftadaeth a gwerth posib enwebiad Safle Treftadaeth y Byd wedi ei gwblhau. Mae cynhadledd i amlygu'r cyfle economaidd all ddeillio o Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi wedi ei chynnal. Rydym yn gweithio tuag at lunio Asesiad Technegol o'r enwebiad i'w gyflwyno i Lywodraeth San Steffan ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cais amlinellol i Croeso Cymru sy'n cynnwys Glannau Caernarfon o fewn eu cais cenedlaethol am arian Ewrop wedi ei gyflwyno (ac yn un o flaenoriaethau Gogledd Cymru). Mae'r prosiect yn cyrraedd y cerrig milltir disgwyliedig.

**T6 Gwella mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd hwyluso a gweithredu pecyn o brosiectau er mwyn cefnogi unigolion bregus i mewn i waith. Mae'n brosiect rhanbarthol (Gogledd Cymru) gyda Gwynedd wedi bod yn cyfrannu at gomisiynu'r gwaith.**
Mae prosiectau wedi eu cyflwyno i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), ac rydym yn ffyddiog y bydd prosiectau megis TRAC11-24, sydd wedi ei anelu at bobl ifanc yng Ngwynedd sydd mewn risg o ymddieithrio, yn weithredol cyn gynted ag y cawn eu cymeradwyaeth. Mae gweithgareddau i gefnogi sgiliau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) mewn ysgolion ac alinio cyfleoedd economaidd i'r cwricwlwm o fewn Gwynedd a'r rhanbarth ehangach yn cael eu datblygu ar hyn o bryd mewn cydweithrediad â grwpiau amrywiol gan gynnwys cyflogwyr, penaethiaid, colegau, prifysgolion, ac eraill. Mae'r prosiect yn cyrraedd y cerrig milltir disgwyliedig.

Y Cynghorydd Ioan Thomas

**T7 Cydymdrechu yn erbyn tlodi**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd mabwysiadu a gweithredu Strategaeth i Drechu Tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid.**

Rydym wedi adnabod yr angen am strategaeth amlasiantaethol ar gyfer trechu tlodi yng Ngwynedd a chomisiynwyd gwaith gan ymgynghorwyr allanol i adnabod a diffinio tlodi yng Ngwynedd heddiw, i fapio ymyraethau, ac i adnabod cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Mae'r comisiwn yn cadarnhau fod patrwm tlodi yng Ngwynedd yn un cymhleth, ond ei fod yn ei hanfod yn ddibynnol ar gyflwr yr economi. Bydd Aelodau'r Cabinet yn cynnal trafodaeth benodol ar hyn yn y misoedd nesaf.

**T8 Adolygu Strategaeth Cyflenwad Tai**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd adolygu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd.**

Mae cerrig milltir wedi eu cytuno a bwriedir cyflwyno'r 'Model Cyllido Ariannu Tai Fforddiadwy' erbyn mis Tachwedd eleni. Mae agweddau megis cyfrannu at drawsnewid y ddarpariaeth gofal, 'sefydlu unedau tai fforddiadwy' a 'dod â thai gwag nôl i ddefnydd' yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyliad.

**4.2 Gofal**

Y Cynghorydd Gareth Roberts

**G1 Her Gofal**

**Pwrpas y prosiect hwn fydd ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r her sydd yn ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy gydweithredu'n gymunedol.**

Mae trefniadau'r prosiect wedi eu sefydlu a'r gwaith wedi'i ddechrau o ran ymgysylltu hefo staff ac aelodau. Cytunwyd ar gerrig milltir cychwynnol, ond mae gwaith pellach i'w wneud o ran cytuno sut y byddwn yn mesur effaith y prosiect. Mae'n hanfodol ein bod yn gallu, gymaint ag sydd bosib, mesur llwyddiant y prosiect hwn gan ei fod yn greiddiol i weddill y trawsffurfio sydd ei angen yn y maes. Gyda'r math yma o brosiect, mae yna risg o gyflawni'r elfennau disgwyliedig i gyd a darganfod wedyn nad ydym wedi llwyddo i gael llawer o effaith mewn gwirionedd.

Yn benodol, o ran 'adnabod cryfderau cymunedau', mae cryn dipyn o waith yn cael ei wneud ar draws y sector gofal, ac fe fyddwn yn manteisio ar hyn yn ystod yr wythnosau nesaf - byddwn yn ceisio sicrhau ein bod i gyd yn cydweithio mor effeithiol â phosib. Rydym hefyd yn awyddus i gydblethu'r gwaith dechreuol sydd wedi ei wneud gan y Grŵp Cyswllt Trydydd Sector i adnabod yr holl 'drafodaethau' sy'n bodoli rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector. Mae'r prosiect hwn heb os yn un heriol ac mae'n debyg ei fod yn deg dweud fod sgôp rhai elfennau eto i'w diffinio.

**G2 Gweithio'n integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**
**Pwrpas y prosiect hwn fydd ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio gan sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd (pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol yn yr achos yma) yn gwbl ganolog.**
Mae staff yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sydd yn gweithio yn Eifionydd i gyd bellach yn rhan o dîm Ffordd Gwynedd ac maent felly yn derbyn holl gyfeiriadau 'Gwasanaethau Cymdeithasol' ar gyfer yr ardal – bydd cyfeiriadau cymunedol y Gwasanaeth Iechyd yn dilyn. Mae'r prosiect yn heriol o safbwynt newid yn y ffordd o weithio, ac i'w weld yn cynnig buddion sylweddol o ran bodlonrwydd cwsmer ac effeithlonrwydd.

Er bod amserlen o Fawrth 2017 wedi ei bennu ar gyfer sawl elfen o'r prosiect, o ystyried cynnydd y prosiect hyd yn hyn, rhagwelir cyflawni rhai ohonynt yn dipyn cynt na'r disgwyl.

**G3 Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**
**Os am lwyddo gyda'r newid sylweddol a newid meddylfryd a diwylliant yr adran, mae'n hanfodol bod strwythur staffio'r adran yn addas i bwrpas ar gyfer y dyfodol. Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu ar ail-strwythuro'r adran.**
Mae penodiadau'r haen Uwch Reolwyr wedi eu cwblhau. Yn anffodus mae rhywfaint o oedi wedi bod o ran pryd y byddant yn dechrau ar eu swyddi newydd ac felly, am y tro, mae'r cyfnod yn parhau i fod yn un heriol.

Mae ail gam y prosiect (Haen Rheolwyr Tîm) wedi dechrau, ac i'w gwblhau erbyn diwedd 2015. Rhagwelir cyflawni'r prosiect hwn ymhell cyn yr amserlen a roddwyd yn y Cynllun Strategol o Fawrth 2017.

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

**G4 Strategaeth Letya Pobl Hŷn**
**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau cytundeb ar y Strategaeth Letya Pobl Hŷn a'i defnyddio i bwrpas trafodaethau datblygol gyda phartneriaid**
Mae gwaith ar y strategaeth yn digwydd yn unol â'r amserlen, sef diwedd Mawrth 2016.

**G5 Tai Gofal Ychwanegol (Porthmadog)**
**Pwrpas y prosiect yma yw adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.**
Rhaid adrodd fod llithriad wedi bod yn y prosiect, sy'n golygu na fydd y gwaith wedi'i gwblhau tan hydref 2017 - yn hytrach na'r targed gwreiddiol o fod wedi cwblhau erbyn diwedd yr haf 2017. Ond os cedwir at yr amserlen ddiweddaraf, byddwn yn parhau i fod oddi mewn i'r telerau grant sydd ynghlwm ag ariannu'r gwaith. Y prif reswm am y llithriad ydi fod oedi wedi bod o ran cymeradwyo'r cynlluniau terfynol trwy'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu, ac yn dilyn hyn wedyn roedd angen cymeradwyaeth bellach gan y llywodraeth.

**G6 Frondeg**
**Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.**
Mae ymgynghoriad ar safle Frondeg wedi cychwyn ers y 14 Medi 2015 a bydd yn gorffen ar 30 Hydref 2015. Rydym yn ymgynghori ar y bwriad o ddatblygu model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu yng Nghaernarfon. Bu i'r Cabinet drafod y mater ar 14 Gorffennaf 2015 lle y penderfynwyd ffafrio opsiwn o ddatblygu model Llety Cefnogol newydd wrth ymyl Cartref Frondeg ar gyfer 16 preswylydd (6 achos dwys, 10 cymedrol) fel yr opsiwn a ffafrir o fewn yr ymgynghoriad.

**G7 Darpariaeth Fewnol**
**Pwrpas y prosiect yma yw penderfynu ar sut ryda'n ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sy'n darparu gwasanaeth gofal) a gweithredu ar hynny.**
Mae'r prosiect Darpariaeth Fewnol yn parhau i fod yn ddatblygol ei natur, ac nid oes opsiwn hawdd yn sefyll allan ar hyn o bryd. Adroddir ymhellach arno yn adroddiad nesaf yr aelod Cabinet.

### 4.3 Materion eraill o bwys yn y maes Gofal

Mae'r materion isod yn codi yn y maes Gofal gan y Cynghorydd Gareth Roberts.

**Recriwtio:** Mae pryderon cynyddol o ran recriwtio staff ym maes gofal ac iechyd. Mae diffyg meddygon a nyrsus yn bryder cyffredinol ar draws y sector iechyd ond mae'n debyg fod y sefyllfa'n fwy dyrys mewn ardaloedd gwledig. Yn fwy penodol wedyn o ran y maes gofal, mae diffyg gofalwyr cartref mewn rhai o ardaloedd gwledig Gwynedd megis Meirionnydd.

Mewn ymateb i'r her hon, ac wrth i'r Cyngor geisio sefydlogi a chefnogi'r sefyllfa, yr ydym yn cydweithio yn agos gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a phartneriaid allweddol eraill ar hyn o bryd. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn ceisio sicrhau datrysiadau yn y tymor byr ond hefyd ymdrechion mwy strategol o ran cynllunio ymlaen i'r hir dymor.

**Sefydlogrwydd Cartrefi Nyrsio:** Gwelwn ganlyniadau a sgil effaithiau y diffyg cyffredinol o ran nyrsys yn cael ei adlewyrchu o ran sefydlogrwydd a chynaliadwyedd bregus rhai o gartrefi nyrsio'r sir, ac er fod cymhlethdodau eraill hefyd yn cyfrannu, y tebygolrwydd yw fod diffygion recriwtio yn greiddiol i'r sefyllfa anfoddhaol hon.

Rydym fel Cyngor yn ymateb i sefyllfaoedd fel y maent yn codi gan ymdrechu i sicrhau ein bod yn ystyried datrysiadau gyda holl bartneriaid perthnasol.

**Cyflog Byw Cenedlaethol**: Mae cyhoeddiad y Canghellor o ran y nod o sicrhau cyflog byw erbyn 2020 yn debygol o gael cryn effaith ar y sector gofal. Bydd yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn ystyried goblygiadau'r penderfyniad yn ofalus.

### 5.0 Mesurau

Rhestrir isod y mesurau y dylid tynnu sylw yn benodol atynt er mwyn amlygu'r perfformiad. Cyflwynir rhestr gyflawn o'r mesurau sy'n berthnasol i'r meysydd a drafodir yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 1.

## 5.1 Amgylchedd

Y Cynghorydd John Wyn Jones
**WMT/009 - Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio -** Mae'r Cyngor wedi parhau i gyrraedd targedau heriol y Llywodraeth ar gyfer ail-gylchu, sydd wedi sicrhau bod y Cyngor yn osgoi dirwy sylweddol. Diwedd Gorffennaf roedd y perfformiad yn 57.28% yn erbyn targed blynyddol o 58%. Er hyn mae'r Adran yn nodi bod y perfformiad ar drac i gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn wrth gyflwyno casgliadau gwastraff tirlenwi bob tair wythnos ym Meirionnydd, ers y cyntaf o Fehefin, a'u cyflwyno yn Arfon ym mis Tachwedd. Er hyn mae safle cymharol Gwynedd yn y tablau cenedlaethol yn peri pryder a bydd hyn yn derbyn sylw i'r dyfodol.

**PB51 Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol -** Mae'r lefelau ailgylchu/compostio wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda pherfformiad Chwarter 1 yn 40.24% i gymharu â pherfformiad blwyddyn o 35.45% y llynedd.

Y Cynghorydd Dafydd Meurig
**Eiddo2 - Canran cwsmeriaid y ddesg gymorth cynnal a chadw sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd -** Mae'r mesur yn nodi perfformiad o 98.12% ar gyfer Chwarter 1, sydd yn gynnydd pellach o berfformiad 2014-15 o 97.5%. Tybir fod y lleihad yn yr amser a gymer i gau galwad, a system i ddiweddaru cwsmeriaid yn amlygu ei hun yn y lefel bodlonrwydd cwsmer. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i adnabod rhesymau dros anfodlonrwydd cwsmeriaid er mwyn ymateb iddynt os yn bosib.

**Cludiant02 - Canran o gwsmeriaid a ddwedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth [cludiant cyhoeddus] -** Nodir perfformiad o 39% yn Chwarter 1. Mae cryn waith wedi ei wneud i ddadansoddi ymatebion oedd yn nodi anfodlonrwydd gyda'r gwasanaeth cludiant cyhoeddus. Gan eithrio achosion lle nad oes gan y Cyngor reolaeth dros y sefyllfa, sef gwasanaethau masnachol, byddai'r perfformiad yn 57%. Mae llawer o'r anfodlonrwydd yn ymwneud gydag amlder teithiau bysus. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ddadansoddi anfodlonrwydd cwsmeriaid er mwyn ymateb iddynt os yn bosib.

**PLA/004b - Canran yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu pennu o fewn 8 wythnos -** Mae'r perfformiad yn 80.5%. Mae'r mesurydd yma'n un sydd wedi ei bennu'n genedlaethol, a bellach mae mesurydd lleol mwy ystyrlon wedi ei ddatblygu (PLA/004b Lleol) sy'n mesur cyfartaledd yr amser a gymerir i bennu ceisiadau. Mae'r mesurydd newydd yn adlewyrchu yr hyn sy'n bwysig i drigolion Gwynedd.

**5.2 Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai**

Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies

**YRE1 - Nifer Busnesau'r Sir yn adrodd iddynt ddefnyddio technoleg (e.fusnes/e.fasnachu) o ganlyniad i ymyrraeth Gwynedd Digidol -** Mae dros 7,000 o fusnesau'r sir wedi derbyn gwybodaeth am fanteision band eang ac 150 o fusnesau wedi mynychu gweithgareddau. Mae'r ymchwil gyda'r garfan gyntaf o fusnesau a fynychodd weithgareddau wedi adrodd fod 62.5% o'r busnesau wedi elwa o ganlyniad i fabwysiadu technoleg newydd.

**GDO1 - Nifer Cymuned (daearyddol/o ddiddordeb) yn defnyddio technoleg mewn ffordd newydd/arloesol -** Mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a'r rhaglen LEADER, rhaglen sy'n cefnogi datblygu arloesedd a chydweithrediad yng Ngwynedd, mae tair cymuned o ddiddordeb wedi elwa o gefnogaeth ddwys i'w cynorthwyo i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd newydd gan gynnwys cynhyrchwyr bwyd a diod, mân-werthwyr a phrif atyniadau'r sir.

Y Cynghorydd Ioan Thomas

**CYSW04 - Canran y galwadau sydd ddim yn cael eu hateb gan Galw Gwynedd:** Mae data rheolaeth y gwasanaeth yn dangos fod canran y galwadau nad ydynt yn cael eu hateb yn uwch na'r targed (8.7% yn hytrach na 5%), ac felly'n peri pryder. Un o'r prif resymau am hyn yw lleihad diweddar mewn staff, sydd wedi golygu fod y cyfartaledd amser ateb y ffon wedi cynyddu, a chwsmeriaid felly yn fwy tebygol o roi'r ffon i lawr - sgil effaith hyn yw bod 'canran y galwadau sydd ddim yn cael eu hateb' yn codi.

**CYSGW05 - Canran ceisiadau gwasanaeth sy'n cael eu datrys ar y pwynt cyntaf yn Galw Gwynedd:** Mae data rheolaeth y gwasanaeth yn dangos fod y perfformiad yn well na'r targed (35%) gan fod bron i 40% o geisiadau am wasanaeth yn cael eu datrys ar y pwynt cyswllt cyntaf. Mae'r elfen hon wedi cynyddu yn raddol, o tua 25%, ers pan sefydlwyd Galw Gwynedd.

**Mesurau'r Gwasanaeth Llyfrgell -** Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru ar berfformiad y gwasanaeth yn ystod 2014-15. Roedd Gwynedd wedi perffformio yn dda yn erbyn fframwaith o safonau sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru i gyflawni eu hamcanion a gwerthoedd. O'r dangosyddion ansawdd sy'n mesur canlyniadau ac effaith y fframwaith, roedd Gwynedd wedi cyflawni dau yn llawn a phump yn rhannol. Nid oeddem yn perfformio'n wael ar unrhyw ddangosydd er gwaethaf lefelau staffio, sy'n parhau i fod yn isel. Fodd bynnag, gall newidiadau yn y dyfodol effeithio ar y gwasanaeth megis cynigion am doriadau, sy'n cyfateb i £340,000 a fyddai'n golygu mabwysiadu ffordd newydd o ddarparu gwasanaeth.

**DAT01 Nifer o eiddo gwag hir dymor yn y Sir (6 mis neu fwy) wedi dod nôl i ddefnydd -** Rydym yn perfformio llawer yn well na'r targed a osodwyd ar gyfer Chwarter 1 o ran dod a thai gwag nôl i ddefnydd (26 uned yn hytrach nag uchelgais o 10).

**5.3 Gofal**

Y Cynghorydd Gareth Roberts
**SCA/002a – Cyfradd pobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth -** Mae'r gyfradd wedi parhau i ostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac felly'n awgrymu ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir (46.53 yn 2012-13 a'r ffigwr diweddaraf eleni yn 44.86). Er o bosib fod geiriad y mesurydd yn gam arweiniol, ac y byddai rhywun yn gobeithio gweld cynnydd yn y gyfradd, mae'r mesurydd yn mesur pecynnau gofal traddodiadol e.e.Gofal Cartref ac felly nid yw'n cymryd i ystyriaeth elfennau mwy ataliol o gefnogi pobl i fyw gartref e.e. Teleofal.

Mae trosi'r mesur o 'gyfradd' i 'ganran' o'r boblogaeth o bosib yn amlygu'r sefyllfa'n well - nifer o bobl sy'n 65 neu drosodd y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned wedi disgyn o 4.7% i 4.5%.

**SCA/002b – Cyfradd pobl hyn (sy'n 65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed -** Mae'r gyfradd wedi gostwng yn raddol ers 2013-14 (25.59 yn 2013-14 a'r sefyllfa ddiweddaraf eleni yn 23.06) ac felly'n bositif o ran adlewyrchu'r nod cyffredinol o geisio lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau traddodiadol. Nid yw'r gostyngiad yn y mesur hwn wedi golygu cynnydd mewn gofal cartref traddodiadol chwaith (SCA/002a).

Mae trosi'r mesur o 'gyfradd' i 'ganran' o'r boblogaeth o bosib yn amlygu'r sefyllfa'n well - nifer o bobl sy'n 65 neu drosodd y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal wedi disgyn o 2.6% i 2.3%.

**6.0 Casgliad**

6.1 Gwelir bod gwaith ar y prosiectau strategol yn symud ymlaen fel ag a gynlluniwyd yn y Cynllun Strategol, gyda cherrig milltir wedi eu gosod a chynnydd yn cael ei fesur yn eu herbyn.

6.2 Mae dechrau cadarn wedi bod i'r trefniadau rheoli perfformiad newydd, gyda swyddogion ac aelodau Cabinet yn croesawu'r eglurder sydd ynghylch atebolrwydd. Bydd angen i wasanaethau barhau i reoli perfformiad eu mesurau cyfredol wrth baratoi mesurau o'r newydd.

6.3 Mae mesurau'r timau gwasanaeth yn perfformio'n dda ac mae eu perfformiad yn cael ei reoli lle adnabyddir nad yw'r gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd.

**7.0 Argymhelliad**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Rwy'n cymeradwyo'r adroddiad. Mae parhau i wireddu ar y prosiectau a'r mesuryddion allweddol hyn yn bwysig ond hefyd yn anodd ar adeg o gynni ar adnoddau o ran arian a staff.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.